tŷ hafan
darparu gofal
bod yno

mae eich **gofal chi** yn rhoi cyfle i ni.

i weithwyr proffesiynol

darparu gofal, bod yno

Mae'n bosib na fydd plentyn sydd dan eich gofal yn byw i fod yn oedolyn.

Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth deulu'r plentyn sy'n eistedd o'ch blaen?

Rhowch gynnig ar hyn... Tŷ Hafan.

Mae Tŷ Hafan yn darparu gofal lliniarol arbenigol sydd wedi ei deilwra i anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw bywydau byr, ac mae ar gael yn rhad ac am ddim i deuluoedd yng Nghymru sydd ein hangen.

Rydym wedi helpu dros 400 o deuluoedd er 1999, yn yr hosbis ac yn y gymuned. Rydym nid yn unig wedi darparu gofal lliniarol arbenigol ar gyfer eu plentyn sy'n byw bywyd byr, ond rydym ni hefyd wedi helpu'r teulu i gyd i ymdopi â'r pwysau, y rhwystrau a'r gofid sy'n eu hwynebu'n rheolaidd.

Mae Tŷ Hafan yn bodloni anghenion lliniarol y plant a'r teuluoedd sy'n defnyddio ein gwasanaeth trwy gydnabod y pedair elfen sy'n cyfuno i greu gofal cyflawn, sef gofal corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol. Trwy asesu, cynllunio, gweithredu a gwerthuso, llunnir pecyn proffesiynol o ofal lliniarol arbenigol i fodloni anghenion pob plentyn a phob aelod o'i deulu.

Rydym yn gallu darparu safon ragorol o ofal trwy ddefnyddio gwasanaeth staff cymwysedig a hyfforddedig sy'n arbenigo ym maes iechyd teulu, gofal cymdeithasol a gofal lliniarol. Mae'r rhain yn cynnwys nyrsys plant, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr chwarae. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro ein gwaith dan reoliadau a osodir gan ddeddfwriaeth, trwy arolygiadau blynyddol a dirybudd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael i'w darllen ar-lein: www.hiw.org.uk

Mae ein profiad o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, a'n harbenigedd proffesiynol ym maes gofal lliniarol, yn golygu y gallwn ateb llawer o'r cwestiynau a allai fod gan y plant, eu teuluoedd, neu yn wir, chi eich hun.

"Pan gawson ni wybod am y tro cyntaf am gyflwr Isabella, roedden ni wedi torri ein calonnau. Roedden ni'n edrych o'n hamgylch ar blant eraill a oedd yn iach ac yn galaru dros golli'r dyfodol y bydden ni wedi ei gael gyda'n merch. Pan ddaethon ni i wybod am Dŷ Hafan, gwnaethon ni fanteisio i'r eithaf ar y cyfle. Mae wedi bod o gymorth enfawr i ni! Mae dim ond sylweddoli nad ydyn ni'n mynd trwy hyn ar ein pennau ein hunain yn beth hynod o werthfawr."

David, tad Isabella

Yn y llun: Isabella

help llaw

Gan weithio mewn partneriaeth gyda chi, gallwn gynnig y gofal a'r cymorth lliniarol arbenigol gorau sydd ar gael i blentyn sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar ei fywyd, gan wella ansawdd bywyd ei deulu i gyd.

Rydym yn gwneud hyn trwy roi sylw i'r agweddau emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol ar ofal, yn ogystal â rheoli'r anghenion corfforol sy'n gysylltiedig â chyflwr plentyn.

Rydym yn darparu gwasanaeth sy'n caniatáu i blant sy'n byw bywydau byr, eu brodyr a'u chwiorydd, a'u rhieni i fynegi eu teimladau a dod o hyd i ffyrdd newydd o ymdopi. Rydym yn sicrhau eu bod yn cael peth rheolaeth, a'u bod yn profi'r agweddau cadarnhaol ar fywyd teuluol.

Mae ein tîm yn ymateb i anghenion newidiol pob teulu, gan ddarparu cymorth bron yn unrhyw le, boed hynny yn yr hosbis, yn eu cartref eu hunain neu yn yr ysbyty.

Gyda chaniatâd, gallem ymweld â phlentyn mewn lleoliad megis meithrinfa neu ysgol, er mwyn cael goleuni ar ei anghenion unigol.

Rydym yn rhoi amser i deuluoedd orffwys ac i drafod penderfyniadau anodd. Gallwn eu harwain trwy'r agweddau cyfreithiol, moesegol, ymarferol ac emosiynol ar farwolaeth gyda'n cyngor a chymorth arbenigol ynglŷn â diwedd oes. Rydym gyda hwy ar eu taith trwy farwolaeth a phrofedigaeth, ac rydym yno i roi help llaw iddynt am gyn hired ag y maent ein hangen.

I gael mwy o wybodaeth am sut yr ydym yn bodloni anghenion gofal lliniarol teuluoedd, ewch i:

www.tyhafan.org/palliative-care

gweithio gyda'n gilydd

Mae anghenion cymhleth plant sy'n byw bywydau byr a'u teuluoedd yn aml yn golygu bod rhwydwaith o weithwyr proffesiynol a sefydliadau amlddisgyblaethol yn rhan o'u gofal a chymorth. A ninnau'n arbenigwyr ar ofal lliniarol, rydym yn gweithio ochr yn ochr â phediatryddon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr allweddol a gweithwyr proffesiynol eraill yn y gymuned.

Rydym yn cadw mewn cysylltiad â'r holl weithwyr proffesiynol hynny sy'n ymwneud â gofal pob plentyn. Gallai hyn gynnwys cael gwybodaeth am ymyraethau neu newidiadau o ran sefyllfa teulu.

Mae ein gwasanaeth gofal lliniarol, cyfannol yn ategu gwasanaethau gweithwyr proffesiynol eraill. Mae ein harbenigwyr mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod gan bob teulu yr ystod o gymorth cynhwysfawr sydd ei angen i fodloni eu hanghenion.

"Mae gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig. Mae hon yn egwyddor graidd sy'n gyffredin i nifer o bolisïau a blaenoriaethau allweddol, ac sydd bellach yn sail i agenda a rennir ar gyfer cyflawni newid gwirioneddol a pharhaol, yn enwedig o ran gwella profiadau a chanlyniadau i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd."

Yr Adran Iechyd (2008)
Better Care: Better Lives
Llundain: Yr Adran Iechyd

gwnewch atgyfeiriad i dŷ hafan

A fyddech chi'n synnu pe byddai'r plentyn neu'r person ifanc sydd dan eich gofal chi yn marw cyn iddo fod yn 19 mlwydd oed?

Os "na" yw eich ateb, gall Tŷ Hafan gynnig gwasanaethau gofal lliniarol sy'n bodloni ei anghenion corfforol, cymdeithasol, emosiynol ac ysbrydol.

Rydym yn derbyn atgyfeiriadau yn ystod pob cam o gyflwr plentyn, cyn belled â bod y canlynol yn berthnasol:

- bod bywyd y plentyn yn debygol o gael ei fyrhau gan naill ai gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd neu glwstwr o symptomau nad oes unrhyw obaith rhesymol o wellhad ar eu cyfer
- bod posibilrwydd cryf y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn marw cyn iddo fod yn 19 mlwydd oed

Gallem dderbyn plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth, heb ddiagnosis, sy'n cyfuno i effeithio ar hirhoedledd.

Byddwn yn dod i'r adwy mor fuan ag sydd angen, gan gynnig cyngor i chi ar rai ffyrdd effeithiol o drafod Tŷ Hafan gyda theuluoedd, fel eu bod yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth y gallwn ei gynnig.

Mewn rhai amgylchiadau argyfyngus, gallwn sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn cael y cymorth angenrheidiol yn ddi-oed. Mae hyn yn gyffredin os yw sefyllfa diwedd oes annisgwyl yn datblygu.

Caiff unrhyw un atgyfeirio plentyn i ni… mae'n gyflym ac yn hawdd.

Ffoniwch ni ar **029 2053 2200** a byddwn yn casglu'r wybodaeth yr ydym ei hangen gennych yn y fan a'r lle, ac yn rhoi gwybodaeth ddilynol i chi trwy e-bost neu lythyr, ac yn ystod ein cyfarfod nesaf â chi.

Bydd angen cael caniatâd yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant a, phan fo'n berthnasol, y plentyn neu'r person ifanc. Ceisir awdurdodiad i Dŷ Hafan gael weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill.

Os nad ydych chi'n sicr pa un a yw plentyn neu berson ifanc yn gymwys, ffoniwch ni neu ewch ar-lein i weld detholiad o'r cyflyrau yr ydym yn darparu gofal lliniarol arbenigol ar eu cyfer.

www.tyhafan.org/conditions

cysylltwch â ni

Cewch atgyfeirio plentyn ar unrhyw adeg. Y cwbl y mae'n rhaid i chi ei wneud yw cysylltu â'n Nyrsys Gofal Lliniarol Arbenigol, a byddant hwy yn eich helpu i gymryd y camau nesaf.

029 2053 2200

care@tyhafan.org

Argymhellwch ni i gydweithiwr

A ydych chi wedi siarad â gweithwyr proffesiynol eraill amdanom ni? Efallai eich bod yn gwybod am gydweithwyr eraill sy'n gofalu am blentyn sy'n byw bywyd byr a allai elwa ar ein cymorth.

Rhowch y llyfryn hwn i eraill neu lawrlwythwch gopi ohono o'n gwefan www.tyhafan.org. Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi neu eich cydweithwyr.

www.tyhafan.org

Tŷ Hafan - yr hosbis deuluol i fywydau ifanc. Heol Hayes, Sili, Bro Morgannwg CF64 5XX
Ffôn: 029 2053 2200 Ffacs: 029 2053 2202 Elusen Gofrestredig Rhif: 1047912. Mae Tŷ Hafan® yn nod masnach cofrestredig. (ion11)

Mae bywyd teuluol yn llawn o bethau da a drwg, dagrau a chwerthin. Ni allwn gael gwared ar y pethau drwg, ond gallwn wneud y daith trwyddynt yn rhywfaint haws.